

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

DARPARIAETH YSGOL GYNRADD CYFRWNG SAESNEG

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg ("y Corff Llywodraethu" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl a ymddangosai'n briodol ym marn y Corff Llywodraethu, yn cynnig:

- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg, Dunster Road, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5TP i safle adeilad newydd ar ddatblygiad tai newydd St Ederm, Bridge Road, Caerdydd, CF3 6UZ.
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg o 105 lle i 210 lle
- Ehangu ystod oedran yr ysgol o 4 – 11 i 3-11 drwy greu darpariaeth feithrin yn yr ysgol i ganiatáu ar gyfer 48 lle rhan amser

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2021.

Mae'r ysgol yn ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru a reolir yn wirfoddol ac a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Caerdydd.

Roedd cyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol a barn Estyn ar gael yn:

www.stmellonsprm.cardiff.sch.uk a www.cardiff.gov.uk/stmellonsciwproposals

115 yw nifer presennol y disgyblion yn Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg, 105 yw capasiti yr ysgol a'r capasiti arfaethedig unwaith i'r cynnig gael ei weithredu fydd 210.

Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn (y grwp oedran perthnasol) yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig ei roi ar waith, fydd 30.

Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol ym Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig ei roi ar waith, fydd 30.

Bydd 48 o leoedd meithrin rhan amser yn yr ysgol. Bydd hyn yn galluogi hyd at 48 o blant meithrin 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) i gael addysg feithrin rhan amser yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn parhau fel ysgol wirfoddol a reolir a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Bydd derbyniadau i'r ysgol yn cael eu rheoli gan Gyngor Caerdydd.

O fis Medi 2021, byddai'r 15 lle yn yr ysgol yn y grwpiau blwyddyn rhwng Dosbarth Derbyn i flwyddyn 6 yn cael eu gweinyddu gan y Cyngor yn unol â meini prawf gordanystrifio gweithredol yr Ysgol ar y pryd.

Y Cyngor fel yr Awdurdod Derbyn ar gyfer Caerdydd fyddai'n gweinyddu'r 15 lle fesul grŵp blwyddyn yn unol â'r polisi derbyn sy'n berthnasol i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd.

O 2024/25, byddai pob lle yn yr ysgol yn cael ei weinyddu yn unol â pholisi derbyn i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd.

Y Cyngor fel yr Awdurdod Derbyn ar gyfer Caerdydd fyddai'n gweinyddu derbyn i'r ddarpariaeth feithrin yn unol â'r polisi derbyn sy'n berthnasol i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd.

Bydd rhieni plant a dderbyniwyd ar gyfer addysg feithrin yn dal angen gwneud cais am le yn yr Ysgol os ydynt am i'w plentyn i drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu y cewch eich derbyn i'r ysgol.

Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol disgyblion yn ôl gallu na bandio disgyblion.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Gwneir unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod Lleol ar drafnidiaeth ysgol.

Ymhen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 05 Rhagfyr 2019 gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid gyrru gwrthwynebiadau at Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg, Dunster Road, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5TP.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau i Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Noder bod yn rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.

Bydd y Corff Llywodraethu'n cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath (heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i arsylwadau arnynt ymhen 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Dyddiedig 08 Tachwedd 2019

Llofnod:

Gary Twell
Cadeirydd y Llywodraethwyr

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg, yn ysgol wirfoddol a reolir sydd wedi ei lleoli ar Dunster Road, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5TP.

Y bwriad yw trosglwyddo'r ysgol i safle newydd ar ddatblygiad tai newydd St Edern, cynyddu'r capasiti o 105 lle i 210 lle a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn parhau yn Ysgol Wirfoddol a Reolir (mae ysgol wirfoddol a reolir (**ysgol WR**) yn **ysgol** a ariennir gan wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr lle mae gan sefydliad neu ymddiriedolaeth 9fel rheol o enwad Gristnogol) rhywfaint o ddylanwad ffurfiol ar redeg yr ysgol.

Noder mai Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yw 15 mewn grwp blwyddyn, yn seiliedig ar y gofod sydd ar gael ar hyn o bryd. Pe byddai'r ysgol yn trosglwyddo i'r adeiladau newydd ar safle St Edern, byddai'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn cynyddu i 30 lle ym mhob grwp blwyddyn o fis Medi 2021 ymlaen.

Byddai'r ysgol hefyd yn ehangu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11 drwy agor dosbarth meithrin. Byddai Nifer Derbyn y ddarpariaeth Feithrin newydd yn 48 o leoedd rhan amser o fis Medi 2021 ymlaen.

Byddai disgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg ar adeg y trosglwyddiad (1 Medi 2021) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno symud i ysgol arall.

Byddai'r ysgol mewn sefyllfa i gynyddu'r Nifer ar y Gofrestr, gan dderbyn disgyblion o ddatblygiad St Edern, cymuned Pentref Llaneirwg ac ardaloedd eraill yn amodol ar ddewisiadau rhieni ac argaeledd lleoedd.

Bydd trefniadau Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Reolir fel arfer yn cael eu rheoli gan Awdurdodau Lleol. Cafodd trefniadau derbyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg eu dirprwyo i'r ysgol sawl blynedd yn ôl, ac nid yw hyn wedi newid ers hynny.

Gellir gweld meini prawf gordanysgrifio presennol yr ysgol (www.stmellonsprm.cardiff.sch.uk)

Maer Corff Llywodraethu wedi cytuno i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb yn ôl dros y trefniadau derbyn ac wedi gofyn am gyfnod pontio o dair blynedd o adeg gweithredu'r cynnig ym mis Medi 2021.

Yn ystod y cyfnod pontio, byddai'r 15 lle ychwanegol fesul grwp blwyddyn yn cael eu rheoli gan ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio sydd eisoes ar waith, gyda'r 15 lle ychwanegol fesul grwp blwyddyn yn cael eu gweinyddu gan y Cyngor yn unol â'r polisi derbyn i ysgolion sy'n berthnasol i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd, y mae'r Cyngor yn Awdurdod Derbyn perthnasol arnynt.

Ar ddiwedd y cyfnod pontio, o 2024/25, byddai pob lle yn yr ysgol yn cael ei weinyddu gan y Cyngor yn unol â pholisi derbyn i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd.

Gellir gweld y meini prawf gordanysgrifio presennol ar gyfer ysgolion cymunedol yn (www.cardiff.gov.uk/stmellonsCiWproposals).

Byddai angen ystyried diwygio dalgylchoedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg ac ysgolion cyfagos yn Llanrhymini ar yr adeg briodol.

Byddai ymgynghoriad ar y trefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/2022 yn cael ei gynnal rhwng 1 Medi 2019 a 1 Mawrth 2020 yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Byddai unrhyw adeiladau newydd fyddai eu hangen pe byddai'r cynnig yma yn mynd yn ei flaen i gael ei weithredu yn bodloni canllawiau Ardal yr Adran Addysg ar gyfer ysgolion prif ffrwd – Bwletin Adeiladau sy'n nodi bod angen cynnwys y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol:

- Lle addysgu: mewnol ac allanol
- Ardal/Neuadd fwyta
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Ardaloedd Staff a gweinyddu
- Storio
- Tai bach a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad, offer mawr a waliau mewnol
- Ardaloedd neilltuo i gefnogi gweithio mewn grwpiau bach

Yn ogystal ag ysgol newydd byddai'r cytundeb adran 106 gyda'r datblygwr yn caniatáu cyfleuster cymunedol i gael ei adeiladu. Mae lleoli'r cyfleuster, maint, gosodiad a manyleb i'w pennu. Cynigir y bydd y cyfleuster wedi ei gysylltu'n gorfforol â'r ysgol.

Byddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn gallu manteisio yn ystod oriau ysgol o allu defnyddio'r cyfleuster, yn amodol ar argaeledd.

Byddai angen i Gorff Llywodraethu'r ysgol ar y pryd ystyried y trefniadau rheoli ar gyfer y cyfleuster ar yr adeg briodol. Ni all rheolaeth y cyfleuster olygu costau net i'r ysgol.